Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Barn arbenigol ar ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

**Dan Bristow, Amy Lloyd, Greg Notman, Alexis Palá a Rosalind Phillips**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Ebrill 2024

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal ag anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac mae'n defnyddio ei waith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol. Mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau ychwanegol hyn o dystiolaeth ac arbenigedd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk/cy/

## Cyllidwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Cyflwyniad** 5

**Y Cyd-destun Polisi** 6

Beth yw'r problemau gyda'r farchnad bresennol? 6

Sut mae llywodraethau'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn? 9

Y cynnig i ddileu elw yng Nghymru 10

**Barn arbenigol ar y cynnig** 12

**Prif themâu'r cyfweliadau** 13

Nid yw'r system bresennol yn gweithio 13

Rôl elw yn y system bresennol 13

Goblygiadau posibl dileu elw 16

**Crynodeb o farn arbenigwyr** 19

**Trafodaeth** 22

**Cyfeiriadau** 25

# Crynodeb


Comisiynodd Llywodraeth Cymru Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gasglu barn arbenigwyr ar ei chynnig i ddeddfu i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal; yn benodol ynglŷn â'r cwestiynau canlynol:

- Sut mae'r cymhelliad elw yn dylanwadu ar ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal a phrofiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal?
- I ba raddau a sut y byddai'r cynnig yn cyfrannu at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd y ddarpariaeth a chynnal neu wella canlyniadau?
- I ba raddau y gellir ystyried y cynnig yn fesur cymesur?
- A yw'r cynnig yn angenrheidiol i sicrhau cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a chynnal neu wella eu canlyniadau?

Rhwng 5 a 19 Ionawr 2024, cynhaliodd y Ganolfan 16 o gyfweliadau gydag amrywiaeth o arbenigwyr i gasglu eu barn.

Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod y system bresennol yn gamweithredol. Mae problemau mawr a hirsefydlog o ran digonolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth, gydag effeithiau canlyniadol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Cafwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch y rôl y mae elw'n ei chwarae wrth greu'r camweithredu hwn. Roedd rhai yn ei weld fel symptom o'r system bresennol, ac eraill yn ei weld fel achos.

Roedd gan y rhai a gyfwelwyd ddehongliadau gwahanol o fwriad y polisi: p'un a oedd yn fwriad targedu gwneud gormod o elw, neu'r holl elw. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd angen cael gwared ar yr holl elw er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwyedd yn y ddarpariaeth.

Dim ond rhai oedd yn teimlo bod y cynnig yn angenrheidiol. Roedd consensws na fydd dileu elw yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion yn ymwneud â digonolrwydd ac ansawdd ar ei ben ei hun. Pwysleisiodd y rhan fwyaf ei bod yn rhaid ei chynnwys mewn agenda trawsnewid ehangach.

Awgrymodd y rhan fwyaf fod angen buddsoddi yn y sector ochr yn ochr â'r cynnig er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch sefydlogrwydd a chynaliadwyedd.

Mynegodd pawb a gyfwelwyd bryderon am y broses weithredu, a'r risg ei bod yn amharu ar dirwedd darpariaeth sydd eisoes yn fregus. Gellid disgrifio hyn fel risg sylweddol i sefydlogrwydd yn y tymor byr a'r tymor canolig, gyda chanlyniadau a allai fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc mewn gofal.

# Cyflwyniad

Mae'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn amlinellu ymrwymiad i "roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal" (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r ymrwymiad polisi hwn yn seiliedig ar awydd i sicrhau bod arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant sy'n derbyn gofal yn cael ei ail-fuddsoddi i wella'r system ei hun, yn hytrach na chael ei dynnu fel elw (Llywodraeth Cymru, 2022).

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gasglu barn arbenigwr ar y cynnig i ddeddfu i gyflawni ei ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal; yn benodol ynglŷn â'r cwestiynau canlynol:

- Sut allai'r cymhelliad elw a'r modelau busnes cysylltiedig ddylanwadu neu beidio ar ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal a phrofiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal?
- I ba raddau a sut y byddai dileu elw preifat yn cyfrannu yn y tymor byr, canolig a hirach at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a chynnal neu wella eu canlyniadau?
- I ba raddau y gellir ystyried gweithredu'r ymrwymiad ynglŷn â'r holl ddarpariaeth breswyl a maethu annibynnol yn fesur cymesur (hynny yw cydbwyso'r effaith ar ddarparwyr â'r effeithiau ehangach a ragwelir ar y system)?
- A yw'r dull hwn yn angenrheidiol i gyflawni amcanion cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a chynnal neu wella eu canlyniadau, neu a oes dulliau llai ymwthiol/mwy dethol eraill o gyflawni'r amcanion hyn?

Rhwng 5 a 19 Ionawr 2024, cynhaliodd y Ganolfan 16 o gyfweliadau gydag amrywiaeth o arbenigwyr. Cafodd y rhain eu nodi mewn sgwrs â swyddogion yn Llywodraeth Cymru, ac roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r byd academaidd, y trydydd sector, ac unigolion a sefydliadau sydd â dealltwriaeth o'r dirwedd o ran darparu gofal cymdeithasol i blant. Nid oedd safbwyntiau'r rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chomisiynu, prynu a darparu lleoliadau gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru wedi cael eu cynnwys, gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y safbwyntiau hyn yn cael eu deall yn dda ac eisoes yn ymwneud â datblygu polisi ac yn cyfrannu ato. Mae'r briff cyn y cyfweliad a anfonwyd at y rhai a gymerodd ran i'w weld yn yr Atodiad.

# Y Cyd-destun Polisi

Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal fel unigolyn o dan 18 oed sydd o dan ofal awdurdod lleol yn barhaus am gyfnod o fwy na 24 awr (Llywodraeth Cymru, 2024). Yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2023, roedd 7,208 o blant yn derbyn gofal, roedd 69% ohonynt mewn gofal maeth, roedd 10% yn byw mewn lleoliadau preswyl ac roedd 21% mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys y rheini sy'n byw'n annibynnol, gydag unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant neu'r rheini sydd wedi'u lleoli i'w mabwysiadu (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae dros 80% o gartrefi gofal ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan y sector preifat ar hyn o bryd, gyda thua hanner yr asiantaethau maethu hefyd yn cael eu darparu gan y sectorau preifat, annibynnol neu wirfoddol (Llywodraeth Cymru, 2022).

Mewn ymateb i bryderon ynghylch sut roedd y farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol plant yn gweithio, lansiodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) astudiaeth i'r farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol plant yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Canfu hyn nad oedd y farchnad yn gweithio'n dda ym mhob un o'r tair gwlad ac na fyddai'n gwella heb ymyrraeth polisi (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b).

Yng Nghymru, dim ond un rhan o drawsnewid arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau plant (Llywodraeth Cymru, 2023a) yw'r cynnig i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Trafodir y problemau yn y system yn gyntaf, cyn trafod y rhaglen drawsnewidiol ehangach hon, a'r cynnig i ddileu elw fel rhan o hyn.

## Beth yw'r problemau gyda'r farchnad bresennol?

Mae'r cyfrifoldeb dros wasanaethau gofal cymdeithasol i blant wedi'i ddatganoli, ac mae gan awdurdodau lleol Cymru rwymedigaethau statudol o ran diogelu a lles plant, yn ogystal â darparu llety a gofal. Awdurdodau Lleol sy'n darparu llety a gofal, ond mae hefyd yn cael ei roi ar gontract allanol i ddarparwyr annibynnol (er enghraifft darparwyr preifat a gwirfoddol). Yng Nghymru yn 2022, roedd darparwyr preifat cartrefi plant yn gyfrifol am 77% o leoedd tra bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am 74% o leoliadau maethu (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022a).

Yn 2022, roedd cost flynyddol gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yng Nghymru oddeutu £350 miliwn (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022a). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yn unig y mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n gyson, mae'r galw am wasanaethau plant yng Nghymru wedi newid hefyd. Priodolir hyn i'r cynnydd yn nifer y plant hŷn, plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a phlant ag anghenion cymhleth sy'n mynd i ofal. O ganlyniad, mae hyn wedi creu mwy o alw am fwy o leoliadau preswyl a gofal arbenigol.

Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i Gymru: tynnodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd sylw at dair problem fawr ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban:

- Nid yw plant yn cael eu rhoi mewn gofal a llety sy'n diwallu eu hanghenion, yn bennaf oherwydd diffyg lleoedd priodol a lleol;
- Mae darparwyr preifat mawr yn gwneud elw uwch, ac yn codi prisiau uwch na'r disgwyl mewn marchnad sy'n gweithredu'n dda; a,
- Mae gan rai darparwyr mawr lefelau uchel o ddyled, a allai amharu ar leoliadau plant mewn gofal pe baent yn mynd allan o fusnes.

(Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b)

Yn ogystal â phryderon ariannol am weithrediad y farchnad bresennol, mae pryderon moesegol hefyd ynghylch bodolaeth marchnad ar gyfer gofal cymdeithasol plant. Trafodir y rhain yn eu tro.

### Pryderon ariannol

Mae'r farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol i blant yn monopsoni, lle mai'r wladwriaeth yw'r unig brynwr ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol i blant. Mewn marchnad sy'n gweithredu'n dda, wrth i gystadleuaeth gynyddu drwy ddarparwyr newydd ymuno â'r farchnad, byddai disgwyl i'r dewis cynyddol o leoliadau ostwng prisiau a lleihau elw (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b).

Fodd bynnag, mae'r farchnad bresennol yn caniatáu i ddarparwyr er elw bennu prisiau. Rhwng 2010 a 2018 cafwyd cynnydd mewn termau real o 30% yn yr arian a wariwyd ar ddarpariaeth yng Nghymru gan awdurdodau lleol, yng nghyd-destun lleihau cyllidebau termau real cynghorau a mwy o bwysau ar gyllid cyhoeddus (CLILC ac ADSS Cymru, 2018). Yn ogystal â phrisiau, mae elw hefyd yn cynyddu'n gyson (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b). Mae'r broblem hon yn gyffredin ar draws y DU, yn enwedig mewn gofal preswyl, lle roedd elw gweithredu'r darparwyr mwyaf yn 22.6% ar gyfartaledd rhwng 2016 a 2020: roedd yr elw hwn hefyd wedi cynyddu ar gyfradd a oedd yn sylweddol uwch na chwyddiant (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b). Er y cydnabuwyd mai sampl fach yn unig oedd y set ddata hon, roedd elw darparwyr cartrefi gofal yng Nghymru yn uwch ar gyfartaledd ar draws y tair gwlad.

Mae elw mewn gwasanaethau maethu wedi gostwng mewn termau real, ond mae maint elw'r Asiantaethau Maethu Annibynnol mwyaf wedi gostwng 19.4% ar gyfartaledd (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022a).

Mae costau uchel, ynghyd â nifer cynyddol y plant sy'n derbyn gofal, yn rhoi straen sylweddol ar gyllideb awdurdodau lleol a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer agweddau eraill

ar wasanaethau plant (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022a). Mae cwestiynau ynghylch a fyddai darparu gwasanaethau'n fewnol yn lleihau'r straen hwn, fodd bynnag. Er bod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dod i'r casgliad bod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol ddarparu lleoliadau maethu yn rhatach na thrwy eu prynu gan Gynghorwyr Annibynnol, maent yn datgan nad yw'r costau i awdurdodau lleol o ddarparu eu lleoliadau cartref i blant eu hunain yn llai na'u caffael gan ddarparwyr preifat (2022a).

Mae gan rai darparwyr preifat mawr presennol hefyd lefelau uchel o ddyled fel nodwedd gynhenid o'u model busnes. Mae cynnydd mewn cyfraddau llog a'r gost ddilynol i ddarparwyr preifat o ariannu eu dyled, ynghyd â dibyniaeth awdurdodau lleol ar y darparwyr hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn agored i godiadau prisiau sylweddol (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b). Ar ben hynny, mae lefelau dyled mor uchel yn cynyddu'r tebygolrwydd o ansolfedd a chau cyfleusterau'n sydyn, gyda tharfu a niwed sylweddol posibl yn cael ei achosi i'r plant sy'n cael eu lleoli yno (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022a).

## Ansawdd y ddarpariaeth

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd yn datgan nad yw wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr preifat (2022a). Nid oes digon o ymchwil wedi'i wneud i'r pwnc o ddarparu gofal cymdeithasol i blant er elw, ond mae corff cynyddol o dystiolaeth o ansawdd uchel yn y DU sy'n awgrymu cysylltiad rhwng gofal er elw ac amrywiaeth o ganlyniadau negyddol, gan gynnwys: lleoliadau y tu allan i ardal leol plant, ansawdd lleoliadau gwael, a sefydlogrwydd a pharhad lleoliadau gwael (Ablitt, Jiminez a Holland, 2024). Er enghraifft, mae ymchwil yn Lloegr sy'n defnyddio data arolygu Ofsted yn awgrymu bod darparwyr awdurdodau lleol yn llawer mwy tebygol na darparwyr er elw o gael sgoriau gwell (Bach-Mortensen et al., 2022; gweler hefyd Goldacre et al., 2022 a Bach-Mortensen et al., 2023).

Hyd yn oed pan fydd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli yn eu hardal leol, mae'n aml yn anodd cael gafael ar y gofal, y cyfleusterau a'r therapïau angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ag anghenion cymhleth neu ar gyfer plant hŷn. Bu cynnydd hefyd yn y defnydd o leoliadau heb eu rheoleiddio fel dewis olaf, lle darperir llety, ond nid gofal (Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2022b).

## Pryderon moesegol

Mae gwneud elw mewn system sydd wedi'i chynllunio i gefnogi ac amddiffyn rhai o'r plant mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn codi cwestiynau moesegol. Mae'r pryderon hyn nid yn unig yn dod gan randdeiliaid perthnasol, ond hefyd gan y plant

yn y system sy'n rhoi gwybod am deimladau negyddol o'r wybodaeth bod elw'n gallu cael ei wneud o'u gofal (Cope, 2023).

## Sut mae llywodraethau'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn?

Mae'r problemau yn y farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol i blant yn debyg ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r tair llywodraeth wedi datgan ymrwymiad i fynd i'r afael â'r problemau presennol o ran darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i ddiwygio'r system gofal cymdeithasol plant gyfan yn radical, gyda'r nod o lai o blant yn mynd i ofal ac am y gofal sy'n cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well (Llywodraeth Cymru, 2023a). Un o'r prif nodau yw bod plant sy'n derbyn gofal yn aros yn agos at eu cartref ac yn rhan o'u cymuned. Ym mis Medi 2023, llofnododd Llywodraeth Cymru Siarter Rhianta Corfforaethol hefyd, gan addo hyrwyddo a diogelu hawliau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (Llywodraeth Cymru, 2023b).

Yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, mae wyth ymrwymiad polisi wedi'u hanelu at drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023a.) Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae'r map ar gyfer y rhaglen drawsnewid yn rhedeg o fis Gorffennaf 2022 hyd at ddiwedd tymor presennol y Senedd ym mis Ebrill 2026: bwriad y polisi yw, o fis Ebrill 2026 ymlaen, y bydd yn ofynnol i bob darparwr newydd gofal preswyl a maeth plant fod yn ddarparwyr nid-er-elw (Llywodraeth Cymru, 2023a).

### Cyd-destun rhyngwladol

Mae Deddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 yn datgan bod yn rhaid i wasanaethau maethu sydd wedi'u cofrestru yn yr Alban fod yn fudiadau gwirfoddol, sy'n golygu nad yw asiantaethau maethu er elw yn gallu gweithredu'n gyfreithlon. Yn yr ymgynghoriad cychwynnol ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yr Alban, cynigiodd Llywodraeth yr Alban y byddai gwasanaethau plant yn rhan o'r gwasanaeth arfaethedig, ond ers hynny mae wedi nodi y bydd angen rhagor o dystiolaeth i bennu hyn (Llywodraeth yr Alban, 2021; 2022).

Yn Lloegr, mae'r Adran Addysg yn gweithio i nodi lleoliadau peilot ar gyfer Mentrau Cydweithredol Gofal Rhanbarthol, i gynnig cyfleoedd ar y cyd i awdurdodau lleol gynllunio, comisiynu a darparu lleoedd gofal, gan gryfhau eu safle yn y farchnad. Fodd bynnag, hyd yma, mae wedi bod yn heriol i'r llywodraeth nodi rhanbarthau i gyflawni'r cynllun peilot hwn (ADCS, 2023).

Mae gan wledydd eraill hefyd lefelau amrywiol o ddarpariaeth gofal er elw, y sector cyhoeddus a gofal nid-er-elw ym maes gofal cymdeithasol i blant. Mae sefydliadau er elw hefyd yn cynnwys tua 80% o'r farchnad ar gyfer gofal preswyl yn Sweden a'r Ffindir, tra bod hyn yn is yn Norwy (45%) a Denmarc (22%) lle mae rôl fwy i'r sector preifat a sefydliadau nid-er-elw (Shanks et al., 2021). Mae Norwy hefyd wedi defnyddio is-ddeddfwriaeth i ganiatáu i ddarparwyr nid-er-elw gael blaenoriaeth wrth gaffael lleoliadau. Mae'r llywodraeth ganolog yn negodi gyda darparwyr nid-er-elw ar ran bwrdeistrefi, gan gynnig contractau bloc gyda nifer gwarantedig o welyau mewn gofal preswyl (Shanks et al., 2021).

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban sy’n edrych ar ddiwygiadau trawsnewidiol i wasanaethau plant yn canfod bod prinder ymchwil ar ganlyniadau diwygiadau: mae diffyg gwerthusiadau cynhwysfawr ar effeithiolrwydd diwygiadau a’u heffaith ar ansawdd gwasanaethau (McTier, Mackinnon ac Ottaway, 2023).

## Y cynnig i ddileu elw yng Nghymru

Nod cynnig Llywodraeth Cymru yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy’n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach mae’n cael ei ddefnyddio’n gyfan gwbl “i ddarparu profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, cefnogi’r gwaith o ddatblygu a gwella gwasanaethau a datblygiad proffesiynol pellach i staff” (Llywodraeth Cymru, 2022: 3). Mae’r cynnig polisi hefyd yn cyfeirio at rai o’r pryderon moesegol ynghylch darpariaeth er elw, yn enwedig adborth gan blant a phobl ifanc am gael gofal gan sefydliadau o’r fath ac nad yw “Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw” (Llywodraeth Cymru, 2022: 3).

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig deddfwriaeth sylfaenol a fydd ond yn caniatáu i ddarparwyr nid-er-elw gofrestru gwasanaethau cartrefi gofal a maethu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, sy’n golygu na fydd darparwyr er-elw yn cael gweithredu yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae’r dull hwn yn debyg i’r ffordd y mae darpariaeth gofal maeth er elw wedi’i wahardd yn yr Alban (yn Neddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001

Y llinell amser arfaethedig ar gyfer gweithredu yw y bydd yn rhaid i ddarparwyr newydd sy’n cofrestru ag AGC gael statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Bydd darparwyr “er-elw” presennol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol o 1 Ebrill 2027 ymlaen. Bydd y darpariaethau trosiannol yn cyfyngu ar eu gallu i agor cartrefi newydd, cymeradwyo gofalwyr newydd neu ymgymryd â lleoliadau newydd ac eithrio pan fo’r awdurdod lleol sy’n lleoli wedi ceisio ac wedi cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Os yw’r awdurdod lleoli yn awdurdod lleoli yn Lloegr, dim ond mewn amgylchiadau penodedig y bydd darparwyr yn gallu derbyn lleoliadau.

O dan y ddeddfwriaeth arfaethedig, bydd darparwyr yn dal i gael cynhyrchu gwarged gweithredu (yr arian y maent yn ei wneud yn ychwanegol at eu costau) ar yr amod bod hyn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y system yn hytrach nag yn cael ei dynnu fel elw.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r canllawiau statudol presennol ar gomisiynu gofal i gefnogi ei chynnig. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru wedi'i nodi mewn Cod Ymarfer statudol ar gyfer awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a bydd yn cael ei ddiwygio i gefnogi'r newid i ddarparu gofal nid-er-elw (Llywodraeth Cymru, 2023c).

# Barn arbenigol ar y cynnig

Rhwng 5 a 19 Ionawr 2024, cynhaliodd y Ganolfan 16 o gyfweliadau gydag amrywiaeth o arbenigwyr. Cafodd y rhain eu nodi mewn sgwrs â swyddogion yn Llywodraeth Cymru, ac roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r byd academaidd, y trydydd sector, yn ogystal ag unigolion a sefydliadau sydd â dealltwriaeth o'r dirwedd o ran darparu gofal cymdeithasol i blant.

Rhoddwyd y dewis i'r rhai a gyfwelwyd ynghylch a ddylid eu gwneud yn ddienw ai peidio. Rhestrir cyfranogwyr sy'n dewis peidio â bod yn ddienw yn y tabl isod; roedd cyfranogwyr eraill yn academyddion ac ymarferwyr â phrofiad o ddarparu a chomisiynu gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o bob rhan o'r DU.

| Cyfwelai | Sefydliad |
|---|---|
| Yr Athro Bruce Adamson | Prifysgol Glasgow |
| Dr Anders Bach-Mortensen | Prifysgol Rhydychen |
| Yr Athro John Devaney | Prifysgol Caeredin |
| Anthony Douglas | Ymgynghorydd annibynnol |
| Kathy Evans | Cyn Brif Swyddog Gweithredol, Children England |
| Dr Benjamin Goodair | Prifysgol Rhydychen |
| Yr Athro Sally Holland | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Rick Hood | Prifysgol Kingston |
| Helen Mary Jones | Voices from Care Cymru |
| Dr Ellie Ott | Canolfan Tystiolaeth a Gweithredu |
| Emma Smale | Uned Arloesi |

Mae'r canlynol yn crynhoi prif ganfyddiadau'r cyfweliadau. Lle bo'n briodol, nodir tystiolaeth y cyfeirir ati gan arbenigwyr. Lle nad oes tystiolaeth ar gael, rydym yn gwahaniaethu rhwng consensws a gwahaniaeth barn arbenigwyr.

# Prif themâu'r cyfweliadau

Daeth tair thema allweddol i'r amlwg o'r cyfweliadau ag arbenigwyr: pryderon am y system bresennol, rôl elw wrth greu neu gynnal problemau yn y system bresennol, a goblygiadau posibl symud i system nid-er-elw.

## Nid yw'r system bresennol yn gweithio

Roedd consenswS bod problemau mawr a hirsefydlog ynghylch ansawdd a digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gydag effeithiau o ganlyniad i hynny ar ganlyniadau.

Mae'r system bresennol yn dibynnu ar gael marchnad ar gyfer darparu lleoliadau gofal cymdeithasol i blant ond nid yw'r farchnad yn gweithio'n iawn (fel y cadarnhawyd gan adolygiad Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd). Mae dewis lleoliadau yn aml, o reidrwydd, yn cael ei wneud ar sail argaeledd, yn hytrach na'r hyn sy'n diwallu anghenion y plentyn orau. Gan fod yr angen am leoliadau yn llawer mwy na'u hargaeledd, mae pryder bod y 'farchnad gwerthwyr' yn codi costau i Awdurdodau Lleol, heb arwain at welliannau yn ansawdd y gofal. Mynegwyd y pryderon canlynol hefyd:

- Mae'r defnydd o leoliadau y tu allan i'r ardal yn cynyddu oherwydd y diffyg argaeledd, gydag effeithiau o ganlyniad ar ansawdd y gofal (a drafodir ymhellach isod).
- Mae problemau sylweddol o ran y gweithlu, gyda materion o ran cyflogau a chadw staff yn cael eu codi, ac awgrym bod mwy a mwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth a gyflenwir gan ddarparwyr heb eu rheoleiddio.
- Mae tynnu gormod o elw yn gwaethygu heriau cyllido ar draws y system (nid yn unig gofal cymdeithasol plant, ond y system ehangach o gymorth i blant a theuluoedd).
- Mae cwmnïau cyllid preifat (e.e. cronfeydd mantoli) yn ymuno â'r farchnad oherwydd bod cyfle i wneud elw, yn hytrach na'u bod am gael y canlyniadau gorau i blant.

## Rôl elw yn y system bresennol

Er bod consensws bod y system bresennol yn gamweithredol, roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch y rôl y mae elw'n ei chwarae wrth greu'r camweithredu hwn. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r berthynas rhwng darpariaeth er elw a natur ac ansawdd y ddarpariaeth, a'r canlyniadau dilynol i blant a phobl ifanc, yn cael ei deall yn iawn. Nododd arbenigwyr yr heriau o arsylwi a mesur ymddygiad sy'n

gwneud y mwyaf o elw ar draul ansawdd, a'r her o gymhwyso tystiolaeth o wledydd sydd â systemau gofal cymdeithasol gwahanol i Gymru. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae corff cynyddol o dystiolaeth o ansawdd uchel yn y DU sy'n awgrymu cysylltiad rhwng gofal er elw ac amrywiaeth o ganlyniadau negyddol, a godwyd gan rai o'r cyfweleion. Roedd y cyfweliadau'n edrych ar y berthynas rhwng elw / gwneud elw a'r canlynol:

- Moeseg trin plant a phobl ifanc fel nwyddau
- Lleoliadau y tu allan i'r ardal ac argaeledd lleoliadau
- Ansawdd y gofal
- Materion sy'n ymwneud â'r gweithlu

Ystyrir y rhain yn eu tro, cyn dychwelyd at y gwahanol safbwyntiau ynghylch a yw elw yn ffactor sy'n gyrru camweithrediad y system bresennol.

### Moeseg trin plant a phobl ifanc fel nwyddau

Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn adleisio llawer yn y sector, a rhai plant a phobl ifanc mewn gofal, wrth fynegi pryderon moesol a moesegol ynghylch marchnad ar gyfer darparu gofal cymdeithasol i blant, lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu 'masnachu'. Nid pryder haniaethol yn unig yw hwn. Mae ganddo'r potensial i effeithio ar lesiant plant a phobl ifanc mewn gofal, sy'n gallu teimlo bod y rheini sy'n darparu gofal yn gwneud hynny am yr arian (ac mewn rhai achosion yn dweud bod darparwyr yn dweud hynny wrthynt). Roedd rhai'n cysylltu hyn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a rhwymedigaeth y Wladwriaeth i ganolbwyntio ar hawliau'r plentyn a darparu cymorth priodol.

### Lleoliadau y tu allan i'r ardal ac argaeledd lleoliadau

Mae'r prinder lleoliadau sydd ar gael yn arwain at fwy o ddefnydd o leoliadau y tu allan i'r ardal. Efallai y bydd adegau pan ystyrir mai darpariaeth y tu allan i'r ardal yw'r peth gorau i'r plentyn, yn dibynnu ar ei amgylchiadau a'i angen unigol. Fodd bynnag, mae rhai plant yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal oherwydd diffyg opsiynau eraill. Gall gosod plant ymhell o'u rhwydweithiau cymdeithasol gael effaith negyddol ar eu llesiant. Ac mae pryderon y gall hefyd effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yn yr ardal lle cânt eu lleoli. Er enghraifft, pan fydd lleoliadau'n methu, efallai y bydd plant yn rhedeg i ffwrdd, a bydd hynny'n effeithio ar blismona.

Roedd consensws y gall y cymhelliad er elw ddylanwadu ar argaeledd lleoliadau a lleoliad y ddarpariaeth. Mae cymhelliant ariannol i weithredu yn ôl capasiti llawn ac o leoliadau lle mae eiddo'n rhad, yn hytrach na lle mae 'angen', sydd yn ei dro yn creu mannau problemus lle mae lefel y cyflenwad o ofal preswyl yn uwch na'r galw. Mae'r

ffaith bod darparwyr yn cael eu gorfodi i weithredu yn ôl capasiti llawn i aros yn hyfyw, neu'n cael eu cymell i wneud hynny er mwyn sicrhau'r elw mwyaf posibl, hefyd yn cyfrannu at ddiffyg darpariaeth leol. Gall diffyg capasiti arwain at leoliadau amhriodol, lleoliadau y tu allan i'r ardal, a chanlyniadau gwaeth i blant.

### Ansawdd y gofal

Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a yw'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli gyda darparwyr er elw yn wahanol. Roedd rhai'n amau a oedd unrhyw wahaniaeth mewn canlyniadau i'r rheini mewn lleoliadau a oedd yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr er elw; ac yn dadlau bod y sector er elw, mewn gofal maeth, wedi gwella'r cymorth i ofalwyr maeth, a bod hyn wedi gwella ansawdd y cymorth a ddarperir gan ddarparwyr cyhoeddus a darparwyr nid-er-elw.

Awgrymodd llawer fod presenoldeb darparwyr er elw wedi methu â gwella ansawdd gofal, creu mwy o ddewis, darparu sefydlogrwydd na chynaliadwyedd. Cyfeiriodd nifer fach o'r rhai a gyfwelwyd at dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n cysylltu darpariaeth er elw â chanlyniadau annymunol. Roedd un astudiaeth yn dadansoddi adroddiadau arolygu Ofsted ac yn dangos bod ansawdd y ddarpariaeth (fel yr aseswyd gan arolygiadau Ofsted) yn is mewn darparwyr er elw (Bach-Mortsensen et al., 2022). Canfu astudiaeth arall fod plant mewn gofal sy'n derbyn darpariaeth breifat yn fwy tebygol o ddychwelyd i ofal (Goldacre et al., 2022).

### Materion sy'n ymwneud â'r gweithlu

Roedd gwahaniaeth barn ynghylch dylanwad elw ar y gweithlu. Awgrymodd llawer fod creu a chynnal gweithlu gwerthfawr sy'n talu'n dda yn her i'r sector gofal cymdeithasol cyfan. Nid yw'r ymdrech i leihau costau i sicrhau'r elw mwyaf yn helpu i gynnal gweithlu proffesiynol sy'n talu'n dda ac sy'n gallu delio â lefelau uchel o angen a risg.

Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn dangos bod darparwyr preifat yn fwy tebygol o dorri cyfreithiau ar argaeledd a nifer y staff, a bod darparwyr gofal preswyl preifat yn cyflogi llai o weithwyr gofal fesul plentyn (Bach-Mortensen et al., 2022). Canfu adroddiad gan yr Adran Addysg hefyd bod amodau staff hefyd yn waeth yn y sector preifat (Thornton et al., 2015).

Awgrymodd rhai arbenigwyr fod elw gormodol hefyd yn cael ei dynnu gan ddarparwyr staff asiantaeth. Gall darparwyr staff asiantaeth godi ffioedd uwch ar ddarparwyr gofal cymdeithasol rheoledig; bydd y gost wedyn yn cael ei throsglwyddo i'r awdurdod lleol. Gall y ddeinameg hon waethygu heriau ehangach y gweithlu o ran cyflogau, amodau, recriwtio a chadw staff. Ar hyn o bryd, dibynnir ar staff asiantaeth i lenwi'r prinder staff a bodloni'r galw am ddarpariaeth.

### Rôl elw a’r farchnad o ran camweithrediad y system bresennol

Fel y nodwyd uchod, roedd rhai o’r rhai a gyfwelwyd o’r farn mai gwneud elw oedd achos y camweithredu yn y system, gyda rhai yn awgrymu mai’r farchnad ei hun oedd yn achosi hynny. I’r rhai a gyflwynodd y ddadl hon, codwyd y pryderon canlynol:

- Mae system sy’n defnyddio grymoedd y farchnad yn dibynnu ar gost fel procsi ar gyfer ansawdd, ac mae hyn yn golygu y bydd tensiwn bob amser rhwng gofal (a’r perthnasoedd sydd eu hangen i ategu gofal o ansawdd uchel), a’r cymhellion sy’n cael eu creu gan yr angen i gystadlu ar gost. A yw’n bosibl rhoi plant a phobl ifanc wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau mewn system o’r fath?
- Nid oes cymhelliant i leihau nifer y plant a’r bobl ifanc sydd mewn gofal, nac i ostwng prisiau, gan fod y pwyslais ar elw sydd wedi’i wreiddio mewn modelau busnes yn dibynnu ar y ffactorau hyn.

Fodd bynnag, nid oedd yr holl arbenigwyr a gyfwelwyd yn rhannu’r farn hon. Mynegodd rhai y farn nad yw elw yn broblem ynddo’i hun. Lle mae’r rhan fwyaf o’r gwarged gweithredu yn cael ei ail-fuddsoddi yn y system, nid oedd gan rai a gyfwelwyd unrhyw broblem gyda pherchnogion hefyd yn cael cyfran fach o hyn fel elw. Roeddent yn nodi bod gwahaniaeth rhwng sefydliadau annibynnol bach yn cael elw bach, a darparwyr sy’n eiddo i gronfeydd ecwiti preifat sy’n cael gormod o elw. Roedd rhai o’r farn bod y syniad bod elw’n ‘ddrwg’ yn or-syml.

Ar ben hynny, tynnodd rhai sylw at y ffaith bod tirwedd bresennol y ddarpariaeth wedi esblygu dros flynyddoedd lawer, gyda darparwyr preifat yn ymateb i’r penderfyniadau a’r ymddygiad yn y sector cyhoeddus; nad ydynt wedi gwneud y penderfyniad strategol i fuddsoddi dros gyfnod estynedig er mwyn sicrhau darpariaeth briodol, ac yn hytrach wedi elwa o fuddsoddiad preifat (ac wedi talu amdano’n anuniongyrchol). Felly, roedd rhai o’r farn bod cael gormod o elw yn symptom o system lle’r oedd hanes o fuddsoddiad annigonol a diffyg darpariaeth presennol.

Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn ynghylch rôl elw, roedd cefnogaeth gyffredinol i’r angen i fynd i’r afael â gormod o elw.

## Goblygiadau posibl dileu elw

Er bod gan arbenigwyr safbwyntiau gwahanol ynghylch a oedd elw yn achos neu’n symptom o’r heriau presennol, roedd consensws na fydd dileu elw yn mynd i’r afael yn ddigonol â’r materion strwythurol a systemig ynghylch digonolrwydd ac ansawdd ynddo’i hun. Roedd consensws yma y bydd dileu elw yn annigonol i fynd i’r afael yn

ddigonol â'r materion sy'n ymwneud â digonolrwydd ac ansawdd, sy'n strwythurol a systemig. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd bod yn rhaid i unrhyw ymdrech i ddileu elw gael ei chynnwys mewn agenda trawsnewid ehangach..

### 'Cynaliadwyedd' a'r angen am fuddsoddiad

Awgrymodd y rhan fwyaf fod angen buddsoddi yn y sector ochr yn ochr â dileu elw er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch sefydlogrwydd a chynaliadwyedd, gyda rhai arbenigwyr yn mynegi amheuon ynghylch a fydd y buddsoddiad angenrheidiol yn cael ei wneud. Dyma rai meysydd posibl y mae angen cyllid ar eu cyfer:

- Cynyddu capasiti a gallu er mwyn rheoli'r newid (gan gynnwys ystyried pa gymorth sydd ei angen i alluogi darparwyr trydydd sector i dyfu, a darparwyr preifat llai i fod yn ddarparwyr nid-er-elw).
- Buddsoddi i gefnogi gwelliannau yn nifer ac ansawdd y lleoliadau;
- 'Ailwladoli' rhai o'r darpariaethau, gan gynnwys cyflwyno'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i redeg y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen ar blant a phobl ifanc;
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a 'ffrwd uwch' i gefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd;
- Buddsoddi i reoli costau cynyddol gofal preswyl mwy lleol (sef i dalu am gostau uwch tai).

Felly, awgrymodd arbenigwyr, er mwyn asesu effeithiau'r diwygiadau arfaethedig ar 'gynaliadwyedd' (os caiff ei ddiffinio mewn termau ariannol), fod angen gwneud rhagor o waith. Efallai na fydd yr 'arbedion' disgwyliedig o ddileu elw yn ddigon i dalu am y buddsoddiad gofynnol. Mae angen rhagor o wybodaeth am strwythur y farchnad bresennol, a'r anghenion buddsoddi posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach.

### 'Sefydlogrwydd' a phryderon ynghylch rheoli'r trawsnewid

Mynegodd pawb a gyfwelwyd bryderon am y risgiau a allai godi yn ystod y newid i system nid-er-elw, ac o ganlyniad i hynny. Mae risg bod y broses o weithredu a symud oddi wrth y system bresennol yn amharu ar dirwedd darpariaeth sydd eisoes yn fregus. Gellid disgrifio hyn fel risg sylweddol i sefydlogrwydd yn y tymor byr a'r tymor canolig, gyda chanlyniadau a allai fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc mewn gofal.

Roedd y pryderon penodol yn cynnwys y pethau canlynol:

- Mae’n bosibl y bydd darparwyr presennol yn dewis lleihau buddsoddiad, neu dynnu’n ôl o ddarparu lleoliadau’n gyfan gwbl, gan arwain at effeithiau ar ddarpariaeth lleoliadau presennol ac yn y dyfodol.
- Efallai nad oes gan ddarparwyr llai yr arbenigedd na’r gallu i ysgwyddo costau trosglwyddo i statws nid-er-elw ac felly maent mewn perygl o gau’n gyfan gwbl, neu o gael eu prynu gan ddarparwyr mwy sydd â strwythurau perchnogaeth sy’n dal yn gysylltiedig â gwneud elw.
- Gall unrhyw effeithiau ar argaeledd lleoliadau arwain at gynnydd mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio.
- Y posibilrwydd o golli gweithlu, gan fod rhai’n dewis gadael y sector.
- Roedd rhai’n poeni’n arbennig am effeithiau unrhyw ansefydlogrwydd yn y system ar blant ag anghenion mwy cymhleth.

Tynnodd nifer o’r rhai a gyfwelwyd sylw at yr amserlenni arfaethedig fel rhai heriol, o ystyried maint y newid sydd ei angen. Ac i ddarparwyr llai, gall capasiti a gallu (yn enwedig dros gyfnod byr) fod yn rhwystr i reoli’r newid i fod yn nid-er-elw. Dadleuodd rhai, felly, fod angen cynllun soffistigedig ar gyfer rheoli’r broses o weithredu a phontio, sy’n cynnwys cynlluniau ar gyfer ymadael â’r sector preifat. Mae hyn yn cysylltu â’r pwynt am fuddsoddi – bydd angen cefnogaeth i weithredu’r cynnig ar sawl lefel o’r system.

## Y potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol ac amwysedd

Cododd rhai o’r rhai a gyfwelwyd gwestiynau am ganlyniadau anfwriadol posibl ac amwysedd. Er enghraifft:

- Os mai’r nod yw cael buddsoddiad parhaus yn y sector gan weithredwyr nad ydynt yn rhan o’r wladwriaeth, bydd hyn yn golygu bod angen gwneud gwarged gweithredu. Mae hyn, yn ei dro, yn creu heriau ynghylch sut i ddiffinio hyn, a sut i sicrhau buddsoddiad parhaus. A lle mae’r buddsoddiad hwn yn cael ei gefnogi gan fenthyciad yn erbyn gwarged gweithredu yn y dyfodol, sut byddai’r polisi’n osgoi tynnu elw fel ad-daliadau benthyciadau?
- Cafwyd rhywfaint o awgrym bod elw, mewn systemau eraill, yn cael ei dynnu o ddarparwyr nid-er-elw gan fuddsoddwyr sy’n annog arferion busnes penodol (ee cwmni cragen er elw sy’n codi ffioedd rheoli). Sut bydd y polisi’n atal y rhain neu arferion tebyg?
- Gallai pob darparwr fod yn rhai nid-er-elw, ond mae’n dal i ddibynnu’n drwm ar staff asiantaeth sy’n cael eu recriwtio drwy asiantaethau er elw; gyda’r canlyniad y byddai elw’n dal i gael ei dynnu o’r system.

- Sut y bydd y polisi’n ystyried materion trawsffiniol, yn enwedig darparwyr yng Nghymru, ond heb eu cofrestru i ddarparu lleoliadau yng Nghymru? A fydd darparwyr sydd ag adeiladau yng Nghymru a Lloegr yn gallu cynnig darpariaeth er elw ac nid-er-elw?
- A oes risg bod y newid yn tarfu ar ddarparwyr llai (rhai ohonynt yn gadael y sector) ond yn cael effaith arwynebol ar ddarparwyr mwy, sy’n newid eu statws cyfreithiol ond heb fawr o effaith ar eu harferion lleoli, neu ar wneud elw?
- Pan fydd darparwyr presennol yn dewis gadael y farchnad, sut bydd asedau cyfalaf (ee cyfleusterau preswyl presennol) yn cael eu rheoli? Ac a oes risg bod hyn yn creu amwysedd (ee cyn-ddarparwyr yn gosod cyfleusterau gofal preswyl ar rent i ddarparwyr nid-er-elw, ac wrth wneud hynny’n cael elw)?

### Yr angen am ymateb systemig

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o arbenigwyr yr angen am ymdrech gynhwysfawr a chydlynol i ddiwygio. Ochr yn ochr â’r angen am fuddsoddiad, ac am gynllun cynhwysfawr ar gyfer gweithredu a phontio, pwysleisiodd rhai yr angen i adolygu arferion comisiynu, a rôl a swyddogaeth cyrff rheoleiddio. Dadleuodd rhai na ddylai’r sylw ar ddileu elw ddefnyddio gormod o gapasiti, lled band na buddsoddiad, ar draul yr agenda trawsnewid ehangach honno.

# Crynodeb o farn arbenigwyr

Ar y cyfan, roedd yr arbenigwyr o’r farn bod angen mynd i’r afael â gormod o elw o ofal cymdeithasol plant – ond roedd rhywfaint o wahaniaeth barn mewn ymateb i’r cwestiynau a godwyd. Cyflwynir crynodeb o ymatebion arbenigwyr i bob un o’r pedwar cwestiwn ymchwil isod:

**Sut allai'r cymhelliad elw a'r modelau busnes cysylltiedig ddylanwadu ar ansawdd a natur y ddarpariaeth gofal a phrofiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu beidio â dylanwadu ar hynny?**

Cytunodd yr holl arbenigwyr fod y modelau busnes sy’n gysylltiedig ag elw a modelau busnes cysylltiedig yn cael rhywfaint o ddylanwad ar ansawdd a natur y ddarpariaeth.

I rai ohonynt, nid oedd llawer o wahaniaeth mewn ansawdd na chanlyniadau rhwng darpariaeth er elw a darpariaeth nid-er-elw; a'r gwahaniaeth sy’n cael ei wneud rhwng darparwyr er elw sy’n ailfuddsoddi mewn darpariaeth, a’r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Tynnodd rhai sylw at ddylanwadau cadarnhaol (ee ar ansawdd y gefnogaeth a ddarperir i ofalwyr maeth).

Roedd y rhan fwyaf yn codi pryderon, yn benodol ynglŷn â'r canlynol:

- Moeseg trin plant a phobl ifanc fel nwyddau
- Lleoliadau y tu allan i'r ardal ac argaeledd lleoliadau
- Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ansawdd gofal gwael mewn lleoliadau er elw
- Materion sy'n ymwneud â'r gweithlu

A gwelwyd bod hyn, yn ei dro, yn effeithio ar brofiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch rôl elw, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r angen i fynd i'r afael â gwneud gormod o elw, ond safbwyntiau gwahanol ynghylch i ba raddau y mae elw yn achos neu'n ganlyniad i'r system bresennol.

**I ba raddau a sut y byddai dileu elw preifat yn cyfrannu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a chynnal neu wella eu canlyniadau?**

Cododd pob arbenigwr bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o risg i sefydlogrwydd yn y tymor byr a'r tymor canolig, gyda chanlyniadau a allai fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc mewn gofal. Dadleuodd rhai fod angen cynllun soffistigedig ar gyfer rheoli'r broses o weithredu a phontio, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer ymadael â'r sector preifat.

Bydd yr effaith ar gynaliadwyedd yn dibynnu ar lefel y buddsoddiad yn y sector. Cytunodd y rhan fwyaf o'r arbenigwyr fod angen mwy o fuddsoddiad. Fodd bynnag, heb waith pellach i sefydlu'r costau posibl a'r 'arbedion' disgwyliedig, dywedodd yr arbenigwyr y byddai'n anodd pennu lefel y buddsoddiad angenrheidiol, ac felly effaith y cynnig ar gynaliadwyedd.

**I ba raddau y gellir ystyried gweithredu'r ymrwymiad ynglŷn â'r holl ddarpariaeth breswyl a maethu annibynnol yn fesur cymesur (hynny yw cydbwyso'r effaith ar ddarparwyr â'r effeithiau ehangach a ragwelir ar y system)?**

Dadleuodd rhai ei fod yn fesur cymesur. Awgrymodd y rhan fwyaf a oedd yn fesur cymesur yn dibynnu ar sut cafodd ei roi ar waith, ac i ba raddau yr ymdriniwyd â phryderon ynghylch gweithredu (sef y risgiau i sefydlogrwydd a chynaliadwyedd).

**A yw'r dull hwn yn angenrheidiol i gyflawni amcanion cynaliadwyedd a sefydlogrwydd gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a chynnal neu wella eu**

**canlyniadau, neu a oes dulliau llai ymwthiol/mwy dethol eraill o gyflawni'r amcanion hyn?**

Nid oedd y rhai a gyfwelwyd yn glir ar fwriad y polisi: p'un a oedd yn fwriad targedu gwneud gormod o elw, neu'r holl elw.

Roedd gan arbenigwyr safbwyntiau gwahanol ynghylch a oes angen dileu elw.

Ond roedd consensws na fydd dileu elw yn ddigon i fynd i'r afael yn ddigonol â materion hirdymor sy'n ymwneud â digonolrwydd, cynaliadwyedd ac ansawdd, sy'n strwythurol ac yn systemig.

# Trafodaeth

Ceir consensws clir nad yw'r system bresennol o ddarparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn gweithio, a bod gormod o elw'n cael ei wneud. Mae'n ymddangos bod yr achos dros ddiwygio yn un cryf.

Yn yr un modd, ceir rhywfaint o gonsensws bod mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r system bresennol yn gofyn am weithredu ar sawl elfen – lefel cyllid a buddsoddiad strategol, gweithlu, rheoleiddio, arferion comisiynu. Ac ar sawl lefel – o benderfyniadau lleoli unigol, i weithredoedd cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae hyn yn golygu, ar ei ben ei hun, na fydd y cynnig i ddileu elw yn ddigon i fynd i'r afael â'r materion a wynebir (yn wir, fel yr amlinellir uchod, mae'r cynnig hwn yn rhan o becyn diwygio sy'n cael ei ddilyn gan Lywodraeth Cymru). Mae hefyd yn awgrymu y gellir disgrifio ymdrechion diwygio yn ddefnyddiol fel ceisio creu newid mewn system gymhleth – un lle mae nifer o weithredwyr yn rhyngweithio ac yn gwneud penderfyniadau mewn ymateb i ymddygiad eraill yn y system, a dysgu ac addasu eu hymddygiad mewn ymateb i'w profiad. Gellir defnyddio'r fframwaith hwn i ddehongli canfyddiadau'r cyfweliadau a gynhaliwyd:

- Mae gormod o elw wedi dod i'r amlwg dros nifer o flynyddoedd, drwy'r rhyngweithio rhwng comisiynwyr a darparwyr. Mae diffyg buddsoddiad gan y sector cyhoeddus i sicrhau darpariaeth briodol dros gyfnod estynedig wedi ysgogi buddsoddiad yn y sector preifat. Mae'r sector cyhoeddus wedi elwa o hyn ar ffurf argaeledd lleoliadau, ond mae hefyd wedi'i ariannu drwy dalu am yr elw sy'n galluogi buddsoddiad y sector preifat ac yn 'gwobrwy'r' risg sy'n rhan annatod o'r buddsoddiad.
- Mae effaith dileu elw yn ansicr iawn, gyda llawer yn dibynnu ar sut mae gwahanol weithredwyr yn ymateb i'r newid, y ffordd y mae'r penderfyniadau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd, a sut mae hyn yn newid ac yn esblygu dros amser. A hefyd sut mae'r ymyriad yn rhyngweithio ag ymyriadau eraill (hynny yw, yr agenda ddiwygio ehangach). Bydd canlyniadau'n dod i'r amlwg ac yn newid dros amser, a bydd angen mewnbwn parhaus a phenodol gan amrywiaeth o weithredwyr (hynny yw, ar geisio 'llywio'r' system) er mwyn osgoi'r risg o ganlyniadau gwael.
- O ystyried pa mor fregus yw'r system bresennol, ei chymhlethdod, a'r ansicrwydd ynghylch effeithiau'r diwygiadau arfaethedig, mae arbenigwyr yn poeni am y risgiau i sefydlogrwydd y system.

Mae fframio'r diwygiad fel ymdrech i newid system gymhleth hefyd yn pwysleisio pa mor hanfodol fydd y broses weithredu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar weithredu polisi yn amlygu, er mwyn i bolisi lwyddo, bod angen i lunwyr polisi roi sylw i raddau'r amwysedd polisi, a pha mor gydnaws ydyw rhwng y cynnig a'r cyd-destun gweithredu (Baan et al, 2023). Mae rhywfaint o amwysedd a cham-alinio polisi yn anochel, yn enwedig wrth ddelio â mater cymhleth, ond serch hynny mae'r rhai a gyfwelwyd wedi adleisio'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (gweler yr atodiad isod) wrth dynnu sylw at rai meysydd posibl o amwysedd a cham-alinio yn y polisi arfaethedig, a'r risgiau y mae'r rhain yn eu creu. Mae hyn yn codi rhai materion sy'n arbennig o bwysig:

## Amwysedd ynghylch bwriad y polisi

Roedd y cyfweliadau'n tynnu sylw at rywfaint o ansicrwydd ynghylch bwriad y polisi. I rai, roedd dileu elw yn gam tuag at ddileu'r farchnad am ofal[1], a ddilynir mewn ymateb i'r rhai sy'n dadlau bod y farchnad yn arwain at drin plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel nwyddau. Roedd eraill yn ei weld fel ymateb i wneud gormod o elw.

Un ffordd o ddehongli'r cyfweliadau yw eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd eglurder ynghylch y bwriad. Os mai'r nod yw dileu'r farchnad, yna dylai'r dull o weithredu'r cynigion adlewyrchu hyn; a byddai angen amrywiaeth ehangach o fesurau i gefnogi'r newid.

Mae'n bwysig dylunio ymyriad sy'n adlewyrchu'n llawn nodweddion y system bresennol sydd wedi arwain at gynhyrchu gormod o elw ac sy'n parhau i sbarduno cynhyrchu gormod o elw. Fel arall, y risg yw y bydd yr ymyriad yn cael effaith o ran newid yn y system, ond na fydd yn mynd i'r afael â'r problemau a arweiniodd at wneud gormod o elw, megis yr heriau o ran digonolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth. Gallai cael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n sbarduno gormod o elw helpu i ddatblygu ymyriadau eraill neu ategol i gyflawni'r gwaith sydd ei angen o ran diwygio'r system.

## Cam-alinio gyda'r cyd-destun gweithredu

Gwelodd arbenigwyr risgiau sylweddol y bydd y cynnig, oni bai ei fod yn cael ei weithredu'n dda, yn ansefydlogi'r system bresennol. Mynegodd rhai amheuaeth bod y system yn barod ar gyfer graddfa a chyflymder y newid sy'n ofynnol gan y cynnig;

---

[1] Dyma un dehongliad o ddatganiad y Llywodraeth "nad yw'n credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal" (Llywodraeth Cymru, 2022: 3). Dim ond cam tuag at hyn fyddai'r cynnig oherwydd nid yw dileu elw yn golygu bod angen ailwladoli'r ddarpariaeth ac felly dileu'r farchnad.

gyda llawer yn dadlau bod angen mwy o wybodaeth am y ‘cyd-destun gweithredu’ er mwyn gallu bod yn hyderus bod yr adnoddau a’r ymrwymiad sydd eu hangen i weithredu’r polisi’n llwyddiannus ar waith.

Mae’r meysydd a nodwyd drwy’r gwaith hwn yn cynnwys – deall tirwedd bresennol y ddarpariaeth yn well; diffinio graddfa debygol y buddsoddiad sydd ei angen; newid ymddygiad comisiynu ac arferion cyllidebu cysylltiedig; a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â rôl a swyddogaeth cyrff rheoleiddio. Mae cwestiwn cysylltiedig, a amlygwyd drwy’r ymgynghoriad, ynghylch sut mae effeithiau’r cynnig yn cael eu monitro (Llywodraeth Cymru, 2023d); yn benodol sut mae sicrhau bod darparwyr sy’n gwneud gwarged gweithredu yn ailfuddsoddi’r rhain, heb i elw gael ei dynnu drwy amwyseddau posibl. Bydd angen buddsoddi mewn datblygu’r capasiti a’r gallu i ymgymryd â’r math hwn o fonitro cyfrifon.

# Cyfeiriadau

Ablitt, J., Jimenez, P., & Holland, S. (2024). **Cael gwared ag elw o ofal preswyl a gofal maeth i blant: adolygiad tystiolaeth.** Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-preswyl-maeth-plant-adolygiad-o-dystiolaeth**

ADCS (2023). **Regional Care Cooperatives – pre-requisites for success.** Cyrchwyd o:**https://adcs.org.uk/care/article/regional-care-cooperatives-pre-requisites-for-success**

Baan, A.-M., Lewis, J., Wills, E., Ott, E., Lloyd, A., Bristow, D. (2023) **Implementation-minded policy making**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/Implementation-Minded-Policy-Making.pdf**

Bach-Mortensen, A.M., Goodair, B., a Barlow, J. (2022). **Outsourcing and children's social care: A longitudinal analysis of inspection outcomes among English children's homes and local authorities**. Social Science & Medicine, 313, 115323

Bach-Mortensen, A.M., Goodair, B., a Barlow, J. (2023). **For-profit outsourcing and its effects on placement stability and locality for children in care in England, 2011-2022: A longitudinal ecological analysis.** Child Abuse & Neglect, 144.

Cope, A. (2023). **Foster care should not be for profit.** Sefydliad Materion Cymreig. Cyrchwyd o: **https://www.iwa.wales/agenda/2023/10/profit-foster-care/**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. (2018) **Position Statement on Children's Services.** Cyrchwyd o: **https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1840**.

Goldacre, A., Hood, R., Jones, E., King, A., a Wang, C. (2022). **Reunification and Re-entry to Care: An Analysis of the National Datasets for Children Looked after in England.** The British Journal of Social Work. 52(8), pp.4756-4777.

Llywodraeth Cymru (2021). **Y Cytundeb Cydweithio.** Cyrchwyd o: **https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/cooperation-agreement-2021.pdf**

Llywodraeth Cymru (2022). **Dogfen Ymgynghori: Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ynglŷn â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, adrodd gorfodol a rheoleiddio ac arolygu.** Wedi dod o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/2/4/1675930288/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig-crynodeb.pdf

Llywodraeth Cymru (2023a). **Trawsnewid y rhaglen gwasanaethau plant.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/rhaglen-trawsnewid-gwasanaethau-plant-0?_gl=1*vmif5c*_ga*MTg3MzQ4NTI0MC4xNzA1NDExMDE1*_ga_L1471V4N02*MTcxMjY1NDU5Ny40NS4xLjE3MTI2NTQ5MzIuMC4wLjA.

Llywodraeth Cymru (2023b). **Siarter Rhianta Corfforaethol.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/siarter-rhianta-corfforaethol?_gl=1*1sj95c*_ga*MTg3MzQ4NTI0MC4xNzA1NDExMDE1*_ga_L1471V4N02*MTcxMjY1NDU5Ny40NS4xLjE3MTI2NTUxNTguMC4wLjA.

Llywodraeth Cymru (2023c). **Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-05/y-fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-comisiynu-gofal-a-chymorth-yng-nghymru-cod-ymarfer.pdf

Llywodraeth Cymru (2023d). **Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion. Cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ynglŷn â gofal cymdeithasol plant, Gofal Iechyd Parhaus, adrodd gorfodol a rheoleiddio ac arolygu.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-06/crynodeb-o-ymatebion.pdf

Llywodraeth Cymru (2024). **Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023.** Cyrchwyd o: https://www.llyw.cymru/plant-syn-derbyn-gofal-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html

Llywodraeth yr Alban (2021). **A National Care Service for Scotland: consultation.** Cyrchwyd o: https://www.gov.scot/publications/national-care-service-scotland-consultation/

Llywodraeth yr Alban (2022). **National Care Service: statement of benefits.** Cyrchwyd o: https://www.gov.scot/publications/national-care-service-statement-benefits/documents/

McTier, A., Mackinnon, K., ac Ottaway, H. (2023). **Children's Services Reform Research study: Case Studies of Transformational Reform Programmes.** CELCIS. Cyrchwyd o: **https://www.celcis.org/knowledge-bank/search-bank/children-services-reform-research-study-case-studies-transformational-reform-programmes**

Shanks, E., Backe-Hansen, E., Eriksson, P., Lausten, M., Lundström, T., Ranta, H., a Sallnäs, M. (2021). **Privatisation of residential care for children and youth in Denmark, Finland, Norway and Sweden.** Nordic Welfare Research, 6(3), tt.128-141.

Thornton, A., Hingley, S., Mortimer, E. (2015). **A census of the children's homes workforce: Research report.** Yr Adran Addysg. Cyrchwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7e0e54e5274a2e87daf427/RR437_-_Children_s_homes_workforce_census_.pdf**

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. (2022a). **Children's social care market study final report: Wales summary**. Cyrchwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/media/62287a3a8fa8f526dba3430a/Wales_summary.pdf**

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. (2022b). **Children's social care market study: final report.** Cyrchwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6228726cd3bf7f158c844f65/Final_report.pdf**

# Atodiad

Briff Cyn y Cyfweliad: **Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Ddileu Elw o Ofalu am Blant sy'n Derbyn Gofal**

**Trosolwg**

1. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, yn y bôn, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai ohonynt angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc mewn gofal mor fyr â phosibl.
2. Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ail-ddylunio sut rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn i ni allu gwneud ein gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, sydd wedi'u cynllunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol.
3. Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i '**gael gwared ar elw preifat o ofalu am blant sy'n derbyn gofal**' fel elfen allweddol o'r agenda radical hon.
4. Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt wrthwynebiad cryf i dderbyn gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn cydymdeimlo â'r farn honno. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn poeni bod, neu y gallai fod, y farchnad bresennol ym maes gwasanaethau plant yn gwneud galwadau nad oes modd eu cyfiawnhau na'u cynnal ar bwrs y wlad. Bydd gofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector elusennol neu'r sector dielw.
5. Y nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant yn gwneud elw i unigolion nac i endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl i gefnogi'r gwasanaethau hyn: i ddarparu profiadau a chanlyniadau gwell i bobl ifanc; i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ac i ddatblygu gwasanaethau gofal plant cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer y dyfodol.

**Cynnig Deddfwriaethol**

6. Rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2022, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o gynigion mewn perthynas â dileu elw.

7. Cafwyd 153 o ymatebion a mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau ar draws y sector i’r cynigion. Cyhoeddwyd y crynodeb o’r ymatebion i’r ymarfer ymgynghori ym mis Mehefin 2023.
8. I bob pwrpas, bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei gwneud yn anghyfreithlon i unrhyw un redeg gwasanaeth cartref gofal preswyl i blant neu wasanaeth gofal maeth (‘gwasanaethau rheoleiddiedig’) yng Nghymru er mwyn gwneud elw a bydd yn rhagnodi’r mathau o gyrff sefydliadol sy’n gallu gweithredu’r gwasanaethau rheoledig hyn. Bydd mecanwaith y gyfraith yn dibynnu ar y gofynion cofrestru presennol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig i blant. Mae’r cynigion yn cynnwys set helaeth o drefniadau i reoli'r broses o bontio i’r gofynion hyn ac maent yn cynnwys ymrwymiad i beidio â tharfu ar unrhyw leoliad presennol pan ddaw’r newidiadau i rym, yn ogystal â digon o hyblygrwydd i awdurdodau lleoli arfer eu swyddogaethau statudol mewn perthynas ag unrhyw blentyn neu berson ifanc.

## Manylion yr Awduron

**Dan Bristow** yw Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Dr Amy Lloyd** yn Gydymaith Ymchwil yn Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Greg Notman** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Alexis Palá** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Rosalind Phillips** yn Gynorthwyydd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru